



Cyngor Bwrdeistref Sirol

Blaenau Gwent

County Borough Council

Beth fydd fy mhlentyn yn ei ddysgu yn y Cyfnod Sylfaen Meithrin?



Canllaw Cyfnod Sylfaen Meithrin ar gyfer Rhieni

Beth yw Cyfnod Sylfaen Meithrin?

Mae'r Cyfnod Sylfaen Meithrin yn derm cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r amser y mae eich plentyn yn ei dreulio yn y Cyfnod Sylfaen yn 3 a 4 oed. Mae hwn yn gam pwysig iawn ym mywyd eich plentyn gan ei fod yn gosod y blociau adeiladu ar gyfer eu dysgu yn y dyfodol ac mae'n rhan o'r cwricwlwm cyfredol a chwricwlwm y dyfodol.

Beth yw manteision y Cyfnod Sylfaen Meithrin ar gyfer fy mhleintyn?

Caiff y Cyfnod Sylfaen Meithrin ei gynnal dan do a hefyd yn yr awyr agored ac mae'n galluogi plant i ddysgu drwy chwarae.

Mae'r cwricwlwm yn rhoi cyfle i bob plentyn i fod wrth ganol eu dysgu.

Rhoddir ystyriaeth i ddiddordebau eich plentyn a chânt eu hannog i wneud dewisiadau am eu dysgu. Bydd staff cymwys yn arsylwi plant, yn gweithio gydag unigolion, grwpiau bach neu weithiau yr holl grŵp i ymestyn a datblygu eu dysgu. Mae hyn yn arwain at brofiad dysgu ymarferol, hwyliog a llawn o weithgareddau dwylo-ymlaen y gwyddom eu bod yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu.



Dysgu drwy Chwarae

Caiff y Cyfnod Sylfaen Meithrin ei adeiladu ar egwyddor dysgu drwy chwarae. Mae ymchwil yn profi fod chwarae yn hanfodol i ddatblygiad addysgol pob plentyn a dengys tystiolaeth fod dysgu drwy chwarae yn arf grymus a all helpu plant i ddatblygu ac ymestyn eu sgiliau iaith a chyfathrebu. Mae'n galluogi plant i ddefnyddio cymhelliant, cymryd risgiau a hefyd wneud camgymeriadau heb ofn methiant. Chwarae yw sut mae plant ifanc yn gwneud synnwyr o'u byd. Mae llawer math o chwarae sy'n cefnogi'r cwricwlwm Cyfnod Sylfaen. Mae enghreifftiau'n cynnwys chwarae rôl, chwarae adeiladu, chwarae creadigol, chwarae ymchwiliadol a chwarae dychmygus.



Cynlluniwyd y Cyfnod Sylfaen Meithrin i gyflwyno system addysg hollol gynhwysol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, system lle caiff anghenion eu dynodi yn gynnar a'u trin yn gyflym, a lle cefnogir dysgwyr i gyrraedd eu potensial..

Bydd gan bob meithrinfa ysgol Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r Cydlynnydd yn gyfrifol am reoli Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn y lleoliad meithrin.

Gall dysgwr gyda ADY fod â...

1. Anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na mwyafriif plant eraill o'r un oedran, neu
2. Ag anabledd ar gyfer dibenion Deddf Cydraddoldeb 2012 sy'n atal neu'n eu llesteirio ef neu hi rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant a ddarperir fel arfer ar gyfer plant eraill o'r un oedran?

Mae lleoliadau Cyfnod Sylfaen Meithrin yn rhoi arferion cynhwysol y gellir eu teilwra i ddiwallu anghenion plant gyda ADY.

Siaradwch gyda Chydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol y feithrinfa neu Swyddog Arweiniol ADY Blynnyddoedd Cynnar Blaenau Gwent. Gellir e-bostio pob ymholiad at:

ALNEnquiries@blaenau-gwent.gov.uk



**Tim Anghenion Dysgu Ychwanegol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent,
Llys Einion,
Stryd yr Eglwys,
Abertyleri.
NP13 1DB**

**Ffôn: 01495 355443
E-bost: ALNEnquiries@blaenaugwent.gov.uk**

**Diolch yn fawr i Gyngor Sir Fynwy am
rannu'r daflen hon.**